ECAD6008 2022-23

BA3

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlithydd: Nia Wyn Evans

n.evans@pcydds.ac.uk

Darlith 2: 24.11.2022

Beth am ddefnyddio testunau ffeithiol?



shutterstock.com · 74593420

Defnyddio testun ffeithiol…

- Gallwch ddewis unrhyw destun ar gyfer y sesiwn darllen grwp mewn gwirionedd.
- Ond, cofiwch ddewis testun sy'n mynd i roi digon o gyfleoedd i drafod y cynnyws a **datblygu sgiliau darllen** y disgyblion.

Mae cyfres "Y Gwybodyn" yn adnodd da ar gyfer dechrau arni!



Termau i'w dysgu …

teitl	is-deitl	llun
ffaith	pwyntiau bwled	awdur
ffeithiau	ffotograff	paragraff

Cyfres Y Gwybodyn



- 1 bocs i bob thema
- 6 llyfr ffeithiol gwahanol
- 2 haen wahanol
- 6 copi o bob llyfr disgybl
- 1 llyfr athro i gydfynd â phob llyfr disgybl

Copi disgybl

Olwyn ar bob math o bethau sy'n symud

Pedalo yw hwn.

Mae rhan o'r olwyn yn y dŵr.

Pan mae'r olwyn yn troi mae'n gyrru'r cwch ymlaen neu yn ôl.





Mae olwynion bach ar sglefrfwrdd.

Mae olwynion bach yn gallu troi yn gyflym iawn.

Mae olwynion ar droli archfarchnad.

Mae'n anodd llywio troli archfarchnad!



Mae olwynion ar deganau.





Mae olwyn io-io yn troi'n gyflym iawn ac yn dringo i fyny ac i lawr y llinyn.

Mae olwynion o'n cwmpas ym mhob man.

Ond does neb yn gwybod pwy ddyfeisiodd yr olwyn!

Copi o'r Llyfr Athro

CYN DARLLEN

- Oes geiriau newydd neu anodd yma?
- Eglurwch wrth y disgyblion fod tabl neu grid yma. Atgoffwch y disgyblion fod tabl neu grid yn gallu rhoi gwybodaeth i ni. Atgoffwch y disgyblion fod symbolau fel saethau yn gallu rhoi gwybodaeth i ni hefyd.

STRATEGAETHAU

- Tynnwch sylw'r disgyblion at y ddau ebychnod (!). Eglurwch ein bod yn defnyddio ebychnod i gyfleu sioc, cynnwrf, rhyddhad, rhwystredigaeth neu siom.
- Dadgodiwch y geiriau anodd hyn: **sglefr-fwrdd**, **arch-farch-nad**, **dyf-eis-iodd**. Clapiwch guriad y geiriau a chyfrwch y sillafau.
- Tynnwch sylw'r disgyblion at y geiriau **io-io** a **dringo**. Ydy'r disgyblion yn sylwi ar rywbeth arbennig am y geiriau wrth wrando arnynt? Eglurwch wrth y disgyblion eu bod yn odli. Mae geiriau yn odli pan fydd sain olaf geiriau yn debyg.





YN YSTOD DARLLEN

- Gofynnwch y cwestiynau hyn i'r disgyblion:
  - Pwy fyddai'n hoffi mynd ar bedalo?
  - Beth ydy ystyr **rhan/gyrru/archfarchnad/llywio**?
  - Pwy sydd wedi gweld rhywun yn reidio neu wneud triciau ar sglefrfwrdd?
  - Pwy sy'n meddwl ei bod hi'n anodd llywio troli archfarchnad?
  - Pam mae angen troli mewn archfarchnad?
  - Pa deganau sy'n cael eu dangos yma?
  - Pa degan sydd yn y grid top ar y chwith/grid canol ar y gwaelod/ grid top ar y dde a.y.y.b.
  - Pwy sydd ag io-io gartref?
  - Pam mae saethau yn mynd i fyny ac i lawr?
  - Pa deganau eraill sydd ag olwynion?
  - Beth ydy ystyr **teganau/cyflym/ dringo/llinyn/cwmpas/dyfeisio**?

AR ÔL DARLLEN

- Rhowch restr o eiriau i'r disgyblion a gofynnwch iddynt ganfod y parau sy'n odli –car, ar; coeden, awyren; cwch, llwch; troli, doli; doctor, tractor; sglefrfwrdd, hambwrdd; io-io, dringo). Ydy'r disgyblion yn gallu meddwl am ragor o eiriau sy'n odli? Gwnewch luniau o'r geiriau ac ewch ati i chwarae gêm snap odli.

Copi disgybl

Trenau ddoe

Roedd trenau yn eithaf cyflym ddechrau'r 20fed ganrif. Dyma oedd y ffordd fwyaf effeithiol o deithio bryd hynny.

Ond roedd yn rhaid mynd i'r orsaf ar droed, ar feic, neu mewn cert y tu ôl i geffyl.



Oeddet ti'n gwybod?

Yng Nghymru y teithiodd y trên stêm cyntaf erioed yn llwyddiannus! Digwyddodd y daith rhwng Penydarren, ger Merthyr Tudful, ac Abercynon ar yr 21ain o Chwefror, 1804.

Trenau heddiw

Erbyn heddiw, mae trenau yn gallu teithio'n gyflym iawn.

Oeddet ti'n gwybod?

Yn 2010, roedd trên cyflymaf y byd yn China yn gallu teithio hyd at 220 m.y.a.



Mewn ychydig flynyddoedd efallai y bydd ffrindiau teulu Lois a Twm yn gallu mynd o Fangor i Gaerdydd mewn llai na thair awr. Waw!

Copi o'r Llyfr Athro

CYN DARLLEN

- Trafodwch gynnwys a ffurfiau y tudalennau hyn – lluniau wedi'u labelu, a ffeithiau difyr.
- Edrychwch ar unrhyw eiriau anodd.

STRATEGAETHAU

- Tynnwch sylw'r disgyblion at eiriau sy'n dweud wrthyn ni fod rhywbeth wedi digwydd yn y gorffennol – **oedd, roedd, roedden (nhw).** Gofynnwch i'r disgyblion gynnig brawddegau am bethau maen nhw wedi'u gwneud yn y gorffennol.
- Trafodwch y gair **canrif** (cant o flynyddoedd). Esboniwch fod hanner cynta'r gair – **can** – yn dod o'r gair **cant.**
- Darllenwch y geiriau o amgylch y ddau lun yn uchel. Yna, gwnewch gardiau fflach â'r geiriau hyn arnyn nhw, a'u defnyddio gyda'r disgyblion er mwyn darllen ac ailadrodd, gan bwyntio at y manylion priodol.

Trenau ddoe

Roedd trenau yn eithaf cyflym ddechrau'r 20fed ganrif. Dyma oedd y ffordd fwyaf effeithiol o deithio bryd hynny.

Ond roedd yn rhaid mynd i'r orsaf ar droed, ar feic, neu mewn cert y tu ôl i geffyl.



Yng Nghymru y teithiodd y trên stêm cyntaf erioed yn llwyddiannus! Digwyddodd y daith rhwng Penydarren, ger Merthyr Tudful, ac Abercynon ar yr 21ain o Chwefror, 1804.

10

Trenau heddiw

Erbyn heddiw, mae trenau yn gallu teithio'n gyflym iawn.

Yn 2010, roedd trên cyflymaf y byd yn China yn gallu teithio hyd at 220 m.y.a.



Mewn ychydig flynyddoedd efallai y bydd ffrindiau teulu Lois a Twm yn gallu mynd o Fangor i Gaerdydd mewn llai na thair awr. Waw!

11

YN YSTOD DARLLEN

- Gofynnwch sawl disgybl yn y dosbarth sydd wedi teithio ar drên stêm/ar drên modern.
- Trafodwch y prif wahaniaethau rhwng trenau ddechrau'r 20fed ganrif a threnau modern.
- Ystyriwch fanteision/ anfanteision teithio mewn trenau heddiw o'i gymharu â theithio mewn trên ganrif yn ôl.
- Esboniwch ystyr **mwyaf effeithiol**.

AR ÔL DARLLEN

- Beth sydd orau heddiw – teithio mewn car neu drên? Ystyriwch fanteision ac anfanteision y ddau a gwnewch dabl i'w dangos yn glir.

Copi disgybl

Elusennau'n achub

Ambiwlans Awyr Cymru



- Cafodd Ambiwlans Awyr Cymru ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001.
- Ar ôl derbyn galwad, mae'r Ambiwlans Awyr yn medru bod yn yr awyr o fewn tair munud.
- Mae'r Ambiwlans Awyr yn medru teithio ar gyflymder o 241km yr awr (150 milltir yr awr).
- Elusen yw Ambiwlans Awyr Cymru. Nid yw'n derbyn ceiniog wrth y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar gyfraniadau ariannol wrth y cyhoedd.
- Nod yr Ambiwlans Awyr yw cyrraedd, trin y claf a'i gludo i'r ysbyty mor gyflym ag sy'n bosibl.
- Mae'n medru cyrraedd unrhyw le yng Nghymru mewn 20 munud.

FFAITH

Mae gan yr Ambiwlans Awyr bedwar hofrennydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

RNLI



Elusen yw'r RNLI (*Royal National Lifeboat Institution*) hefyd. Mae'n bodoli ers 1824. Ei nod yw achub bywydau ar y môr. Mae gan yr elusen 350 o fadau achub. Mae'r RNLI yn cynnig gwasanaeth 24 awr y dydd ar hyd arfordir Cymru, Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban. Mae'n ddibynnol ar 40,000 o wirfoddolwyr. Mae pobl yn gwirfoddoli drwy fod ar y bad achub, mewn gorsafoedd, ar y traeth neu'n codi arian.

Ar y traeth

Mae'n debyg bydd un o bob tri pherson yn treulio o leiaf un diwrnod ar y traeth yn ystod yr haf. Mae Achubwyr Bywyd yr RNLI yn ceisio gwneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel ar ein traethau. Maen nhw'n heini ac yn gryf. Maen nhw wedi cael eu hyfforddi i achub bywyd. Er mwyn bod yn Achubwr Bywyd mae'n rhaid gallu:

- nofio 200m mewn llai na tair munud a hanner;
- rhedeg 200m ar y tywod mewn llai na 40 eiliaid.



Dyma'r ardal ar y traeth lle mae'r Achubwyr Bywyd yn gwylio. Dyma'r lle mwyaf diogel i nofio, mynd ar fwrdd neu ddefnyddio dingi.



Dyma'r ardal ar gyfer syrffio, mynd mewn caiac neu unrhyw rafft arall heb injan. Does dim hawl nofio yn yr ardal hon.



Perygl!
Peidiwch â mynd i mewn i'r dŵr ar unrhyw adeg pan fo'r faner goch yn hedfan.



Mae'n dangos cyfeiriad y gwynt. Peidiwch â defnyddio dingis pan fo'r faner hon yn hedfan.

Copi o'r Llyfr Athro

CYN DARLLEN

- Esboniwch fod y testun ar dudalen 8 yn disgrifio math arall o wasanaeth ambiwlans.
- Tynnwch sylw'r dysgwyr at beth yw **elusen**. (cymdeithas sy'n ddibynnol ar garedigrwydd pobl eraill, e.e. rhoi amser/arian/adnoddau).
- Trafodwch beth yw **gwirfoddolwyr**. (Maent yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i helpu eraill).

STRATEGAETHAU

- Darllenwch a chydynganwch y rhifau i gyd ar y ddwy dudalen (e.e. 150 - cant a hanner/can pum deg; 241 - dau gant pedwar deg ac un; 350 - tri chant a hanner ayyb).
- Tynnwch sylw at yr ymadrodd **ar gyflymder o**.... Gofynnwch i'r dysgwyr greu brawddeg neu ddwy yn defnyddio'r ymadrodd hwn.

Elusennau'n achub

Ambiwlans Awyr Cymru



- Cafodd Ambiwlans Awyr Cymru ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001.
- Ar ôl derbyn galwad, mae'r Ambiwlans Awyr yn medru bod yn yr awyr o fewn tair munud.
- Mae'r Ambiwlans Awyr yn medru teithio ar gyflymder o 241km yr awr (150 milltir yr awr).
- Elusen yw Ambiwlans Awyr Cymru. Nid yw'n derbyn ceiniog wrth y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar gyfraniadau ariannol wrth y cyhoedd.
- Nod yr Ambiwlans Awyr yw cyrraedd, ym y claf a'i gludo i'r ysbyty mor gyflym ag sy'n bosibl.
- Mae'n medru cyrraedd unrhyw le yng Nghymru mewn 20 munud.

FFAITH

Mae gan yr Ambiwlans Awyr bedwar hofrennydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

YN YSTOD DARLLEN

- Trafodwch y canlynol:
  - Beth yw nod yr Ambiwlans Awyr?
  - Sawl Ambiwlans Awyr sydd yng Nghymru?
  - Beth ydych chi'n meddwl yw gwaith Gwylwyr y Glannau?
    - Yn ogystal â bod yn heini, pa nodweddion eraill ydych chi'n meddwl sydd eu hangen ar Achubwyr Bywyd yr RNLI?

RNLI



Elusen yw'r RNLI (*Royal National Lifeboat Institution*) hefyd. Mae'n bodoli ers 1824. Ei nod yw achub bywydau ar y môr. Mae gan yr elusen 350 o fadau achub. Mae'r RNLI yn cynnig gwasanaeth 24 awr y dydd ar hyd arfordir Cymru, Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban. Mae'n ddibynnol ar 40,000 o wirfoddolwyr. Mae pobl yn gwirfoddoli drwy fod ar y bad achub, mewn gorsafoedd, ar y traeth neu'n codi arian.

Ar y traeth

Mae'n debyg bydd un o bob tri pherson yn treulio o leiaf un diwrnod ar y traeth yn ystod yr haf. Mae Achubwyr Bywyd yr RNLI yn ceisio gwneud yn siwr bod pawb yn ddiogel ar eu traethau. Maen nhw'n heini ac yn gryf. Maen nhw wedi cael eu hyfforddi i achub bywyd. Er mwyn bod yn Achubwr Bywyd mae'n rhaid gallu:

- nofio 200m mewn llai na saith munud a hanner;
- rhedeg 200m ar y tywod mewn llai na 40 eiliad.



Dynodir ardal ar y traeth lle mae'n Achubwyr Bywyd yn gweithio. Dyma'r lle mwyaf diogel i nofio, mynd ar fwrdd neu ddefnyddio dingi.



Dynodir ardal ar gyfer syrffio, mynd mewn caiac neu unrhyw raff arall heb ganiatâd. Does dim hawl nofio yn yr ardal hon.



Perygl!
Peidwch â mynd i mewn i'r dŵr os unrhyw adeg pan fo'r faner goch yn hedfan.



Mae'n dangos cyfeiriad y gwynt. Peidwch â defnyddio dingis pan fo'r faner hon yn hedfan.

AR ÔL DARLLEN

- Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp ac ewch ati i greu pedair baner yr RNLI sydd i'w gweld yn y llyfr.

Rhowch gynnig arni…



Ydych chi'n barod am her?

- **Bydd un ohonoch chi yn 'athro / athrawes'.**
- **Ceisiwch gynnal sesiwn Darllen Grwp gan ddefnyddio'r testun 'Trenau'.**
- **MWYNHEWCH!**





Defnyddio testunau ffeithiol eraill …


























…a llawer iawn mwy.


Defnyddio testunau ffeithiol eraill …
























…a llawer iawn mwy.


Dysgu Drwy Thema: Dathlu / Dathliadau


































Ydych chi'n barod am her (arall)?

- Fel grwp, dewiswch **un** o'r testunau ychwanegol sydd ar y matiau maint A3 er mwyn cynllunio sesiwn Darllen Grwp.



- Cofiwch ddilyn y canllawiau sydd ar y daflen gynllunio wrth feddwl am bwyntiau trafod, strategaethau darllen a chwestiynau addas i'w gofyn.

Cyn darllen …

Yn ystod darllen …


Testun darllen:

Strategaethau

Ar ôl darllen …

Cyn darllen …

Yn ystod darllen …




Strategaethau

Ar ôl darllen …

Cyn darllen …

Yn ystod darllen …




Strategaethau


Ar ôl darllen …

Cyn darllen …

Yn ystod darllen …



Strategaethau



Ar ôl darllen …


Cyn darllen …

Yn ystod darllen …



Strategaethau

Ar ôl darllen …



Cyn darllen …

Yn ystod darllen …



Strategaethau

Ar ôl darllen …

Mae gallu darllen yn dda yn hanfodol i bob plentyn. Mae'n allweddol i ddatblygu llawer o'u potensial. Mae peidio gallu darllen yn dda yn golygu na fydd plant yn cael budd o'r holl gyfleoedd y mae addysg dda yn ei gynnig. Maent mewn perygl o adael addysg ffurfiol gyda chymwysterau gwael a chael anhawster ym myd gwaith. Eto, mae un ym mhob pedwar o'n plant tlotaf yng Nghymru yn gadael yr ysgol gynradd yn methu darllen yn dda[1].



https://resource-centre-uploads.s3.amazonaws.com/uploads/barod_i_ddarllen1.pdf

Beth ydy manteision ‘Darllen Grwp’?

Mae ‘Darllen Grwp’ yn rhoi cyfle i ddisgyblion fod yn :

ddysgwyr uchelgeisiol, galluog

ddinasyddion moesol, gwybodus



gyfranwyr mentrus, creadigol

unigolion iach, hyderus



Prif negeseuon:

- **chwiliwch**
- **defnyddiwch**
- **arbrofwch**
- **mwynhewch y cyfnod ‘Darllen Grwp’ – mae’n amser arbennig!**